# Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol CCG Mis Tachwedd 26.11.20

**Am 7.30yh Ar-lein**

(Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Tachwedd yn lle mis Mai oherwydd amgylchiadau arbennig eleni.)

**19:158: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Geraint Wigley, Gwen Lloyd, William Owen, Gwenfair Davies, Gareth Owen, Gareth Jones, Paul Hughes, Iwan Jones, Aled Griffiths,

**19:159: Ymddiheuriadau:** Deryck Lewis, Dafydd Evans, Gwenfair Davies

**19:160: Datganiadau o ddiddordeb** Dim

**19:161: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Hydref**

Cynigodd Iwan Jones fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:162: Materion yn codi o'r Cofnodion**

**19:162:1: Mynwent Darowen (19:157:5**:) Mae Iwan Jones wedi asesu'r broblem. Cysylltir ag Huw Pughe Gwernbere a Rowan Jones Tŷ Nant am amcanbris ar gyfer y gwaith.

**19:162:2: Bocs ffôn Cemaes**. Mae Paul Hughes a Siôn Ifans wedi asesu cyflwr y bocs. Cysylltir â Philip Jones ac Andy Bêch am amcanbris.

**19:163: Ethol swyddogion 2020/21**

Cyinigiwyd Gareth Jones y dylai'r swyddogion a chynrychiolwyr cyfredol barhau yn eu swyddi. Fe'i heiliwyd gan Geraint Wigley.

i. Cadeirydd Siôn Ifans
ii. Is-Gadeirydd Gareth Jones

Cynrychiolwyr

i. Un Llais Cymru (Siôn Ifans ac Aled Griffiths)
ii. Llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn (Aled Griffiths a Dafydd Evans)
iii. Pwyllgor y Ganolfan (Paul Hughes a Gareth Jones)
iv. Ecodyfi Penodwyd Iwan Jones i'r swydd. Cynigiwyd hyn gan Gareth Jones ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen
v. Bwrdd Iechyd – Fforwm cleifion – (Gwenfair Davies a Gareth Jones)
vi. Partneriaeth Biosffer (Aled Griffiths)
vii. SARPA (Bill Owen)

**19:164: Materion Ariannol:**

**19:164:1: Cyflog y Clerc** Cynigiwyd Aled Griffiths y dylid codi cyflog y clerc o bunt yr awr . Fe'i heiliwyd gan Gareth Owen

**19:164:2: Bancio ar-lein.** Mae Paul Hughes erbyn hyn â mynediad i fancio ar-lein. Mae cais wedi cael ei gyflwyno i Gareth Jones, Siôn Ifans a'r clerc gael mynediad hefyd.

**19:164:3:** Neuadd Glantwymyn £1,500.00

**19:165: Cadarnhau tâl lle bedd a thâl i godi cerrig bedd yn y mynwentydd**

Adolygwyd costau claddu a chodi cerrig bed fel a ganlyn:

Trigolion yr ardal - £100

Pobl oddi allan i'r ardal - £400
Gosod carreg fedd - £150
Cynigiwyd gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Gwen Lloyd

19:166: Cadarnhau dyddiad ac amser cyfarfodydd y flwyddyn

Penderfynwyd y dylid cadw at y drefn bresennol sef cyfarfod nos Iau olaf y mis ac eithrio mis Awst a Rhagfyr. Cynigiwyd hyn gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Gareth Jones.

Caewyd y Cyfarfod Cyffredinol

**19:166: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:166:1: Y Bwrdd Iechyd – Gareth Jones**

Ni chynhelir unrhyw gyfarfodydd ar hyn o bryd.

Mae nifer o gwynion wedi cael eu derbyn gan y cynghorwyr gan gynnwys:

- Pryderon bod cleifion yn gorfod datgelu natur eu problemau gyda staff y dderbynfa, o flaen pobl eraill cyn cael apwyntiad gyda meddyg gan olygu diffyg cyfrinachedd
- agwedd sarhaus staff y dderbynfa
- gwrthod apwyntiadau i gleifion
- trefnu i gleifion gweld nyrs cynorthwyol yn lle meddyg
- diffyg hyder cleifion yn y system cwyno i'r fath raddau eu bod yn ofni cael eu hystyried yn niwsans a'u cynghori i fynychu practis arall os ydynt yn mynegi anfodlonrwydd â'r gwasanaeth

Nodwyd bod Gareth Jones eisoes wedi mynegi'r pryderon. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor hefyd yn ysgrifennu at Nicola Ruck, Lucy Cochrane a Chyngor Cymunedol Iechyd Powys i fynegi anfodlonrwydd ac ategu'r cwynion.

**19:167: Gohebiaeth:** Cafwyd llythyr diolch gan Gapel MC Cemaes am gyfraniad y Cyngor at gynnal y fynwent.

**19:168: Unrhyw fater arall**

**19:168**: Estynnwyd llongyfarchiadau calonnog i Nora a Geraint Wigley ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

**19:168:2: Materion Ffyrdd**

- Cais i archebu grit i ffyrdd ardal Darowen
- Awydd pentref Darowen eisiau ei godi eto
- Ffordd beryg rhwng Llanwrin a Glanfechan – eisiau dwyn sylw Cyngor Sir Powys at y perygl i ddefnyddwyr ffyrdd a gofyn eto am ffens a 'reflectors' i rybuddio am y perygl.
- Rhiw Glanfechan - gwter wedi'i flocio
- Arwydd cyfyngu cyflymdra yn Llanwrin eisiau ei drwsio
- Golau stryd wedi torri yng Nglantwymyn PLC2183
- Cais i ymchwilio i system ddraenio wrth goed Derw, Glantwymyn gan fod nifer o broblemau yno gan gynnwys dŵr yn llifo o beipen i'r pafin ac yn berygl i gerddwyr

- Problem parcio ym Maes y Llan, Cemaes. Mynegwyd eto anfodlonrwydd pobl leol o ganlyniad i ddiffyg lle i barcio. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Adran Eiddo i ofyn am gael defnyddio'r tir o flaen y tai. Nodir bod hyn yn broblem i'r pentref cyfan. Cynigiodd Aled Griffiths gwrdd â chynrychiolydd o'r Cyngor i drafod y mater ar y safle
- Gwteri wedi'u blocio yn Llanwrin, wrth adael y pentref i gyfeiriad Glantwymyn ac wrth Hendreseifion

Caewyd y cyfarfod am 9.00yh.

**Cynhelir Cyfarfod CCG am 7.30yh ar yr 17eg o Ragfyr**

---

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 26.11.20**

Derbyniwyd diolch gan Ennyn am y cyfraniad.

Cafwyd cais am arian gan Ysgol Glantwymyn ar gyfer cyfraniad at fwrdd gwyn rhyngweithiol. Penderfynwyd cyfrannu £2,000.00